***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3184

## Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002

**Addasiadau sy'n ymwneud ag ysgolion sy'n peri pryder**

**3.** Os bydd adroddiad arolygydd wedi cael ei wneud cyn 19 Rhagfyr 2002:

(a) bydd adran 15(4) a (6) o Ddeddf 1998 yn effeithiol fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan adran 55 wedi dod i rym;

(b) caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer unrhyw bwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1) neu 19(1) o Ddeddf 1998 fel pe bai'r adroddiad wedi'i baratoi ar ôl y dyddiad hwnnw a bod hysbysiad wedi'i roi o dan adran 16A(2)([1]) o Ddeddf 1996;

(c) caiff awdurdod addysg lleol arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 14(2)(a) neu (b), 16 neu 17 o Ddeddf 1998 fel pe bai'r adroddiad wedi'i baratoi ar ôl y dyddiad hwnnw a bod hysbysiad wedi'i roi o dan adran 16A(2) o Ddeddf 1996.

(**1**) Mewnosodwyd gan adran 54.